

# Fel plentyn

*“Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma’r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd.” (adn. 4)*

## Beth am ddarllen Mathew 18:1–9 ac yna myfyrio

Fel y dywedais ddoe, y mae ‘daioni’ yn cael ei gyfieithu yn well fel ‘rhagoriaeth foesol’. Ond os yw hyn yn cael ei ysgaru oddi wrth rym a nerth yr Ysbryd Glân, mae’n dirywio i fod yn ddim mwy na’r hyn a nodwyd o’r blaen, moesoldeb gwag. Mae moesoldeb fel crefydd yn beth i gilio oddi wrtho. Mae iddo agwedd meddwl balch a thrahaus. Mae’r rhai sydd yn ymarfer y math yma o foesoldeb yn cyfleu personoliaeth sydd yn awgrymu eu bod yn gryf yn eu nerth eu hunain. Ychydig iawn o ostyngeddwydd sydd yn perthyn iddynt, ac maent yn tueddu i edrych i lawr ar y rhai sydd yn cael trafferth gydag anawsterau moesol.

Un o’r arwyddion a welwch mewn Cristion sydd yn dibynnu yn llwyr ar nerth Duw yn ei fywyd yw gostyngeddwydd. Fe ddysgodd yr Arglwydd fod gostyngeddwydd yn un o’r nodweddion amlycaf sydd yn perthyn i’r rhai o fewn ei deyrnas (Mathew 5:3). Yn yr adran o’n blaen heddiw, mae’n siarad am yr angen i feddu ar y gostyngeddwydd sydd yn eiddo i blentyn. Mae llawer yn cael yr ymadrodd yma yn anodd ei ddeall, oherwydd, yn ôl un esboniwr, nid yw plant yn aml yn ostyngedig o ran cymeriad nac o ran ymarwedd. Felly, beth oedd yr Arglwydd yn ei olygu pan ddywedodd hyn?

Yr hyn oedd ganddo mewn golwg, yn fy nhyb i, oedd statws yn hytrach nag ymddygiad. Mae plant, fel y gwyddoch, yn cael eu cyfeirio atynt fel rhai sydd yn ddibynnol. Maent yn ddibynnol ar eu rhieni am bob peth. Y gostyngeddwydd sydd yn perthyn i blentyn, felly, yw’r gostyngeddwydd sydd yn perthyn i ddibyniaeth. Does dim yn fwy hyll ym mywyd y Cristion na balchder, a dyna a welwch mewn rhyw grefydd foesol. Ar y llaw arall, does na ddim yn fwy annwyl a hoffus na gostyngeddwydd, a dyna a welwch chi yn y rhai sydd yn dibynnu ar rym yr Arglwydd.

Mae angen i ni gerdded yn ostyngedig o flaen yr Arglwydd a pheidio â chanmol ein hunain pan fyddwn yn cael gras i oresgyn anawsterau moesol. Bob dydd, fe ddylem ddod ato ef a gofyn iddo am nerth i fyw ein bywyd yn y ffordd iawn, y ffordd y mae ef am ein cynorthwyo i fyw, trwy yr Ysbryd Glân.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Micha 6:8; Luc 7:36–50; 18:9–17

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Duw yn ei ddymuno o’n bywyd ni?
2. Beth oedd y pethau gwahanol yr oedd y Phariseaid a’r pechaduriaid yn dibynnu arnynt?

## Gweddi

Dad nefol, rwy’n blentyn i ti, un o’r rhai sydd yn dibynnu arnat. Cynorthwya fi i ddeall goblygiadau hyn ac i gerdded o’th flaen di gyda gostyngeddwydd sydd yn deillio o adnabod y gwirionedd. Yn enw Iesu. Amen.